

Cyngor Cymuned **Llanidan** Community Council

Cofnodion / Minutes

***Oherwydd diffyg aelodau yn y cyfarfod gwreiddiol nos Fawrth, 25/08/2020, penderfynwyd i gynnal y cyfarfod nos Fercher 2il Medi 2020.**

Oherwydd y Covid-19, penderfynwyd i gynnal cyfarfod ar-lein.

****Due to the lack of members at the original meeting on Tuesday, 25/08/2020, it was decided to hold the meeting on Wednesday 2nd September 2020.***

Due to Covid-19, it was decided to hold an online meeting.

Presennol / Present: Mr Cenwyn Williams **CW**, Mr Steven A. Jones **SAJ**, Cyngorydd Mr Eric W. Jones (CSYM) **EWJ**, Mr Arwyn Jones **AJ**, Mrs Lynn Hervouet (Clerc / Clerk) **LH**.

Ymddiheuriadau / Apologies: Cyngorydd Mr Dafydd Roberts (CSYM) **DR**.

Yn absennol / Absent: Ms Sandra Thomas **ST** (Cadeirydd / Chairperson), Mr Mark E. Evans **MEE** (Is-Cadeirydd / Vice Chairperson), Mr Chris Davies **CD**, Mrs Lindsay Vaughan **LV**.

1. Croeso / Welcome

Cadeiriwyd y cyfarfod gan **SAJ** ac fe groesawyd pawb oedd yn bresennol.
The meeting was chaired by SAJ and all present were welcomed.

2. Datgan Diddordeb / Declaration of Interest

Dim / None

3. Cofnodion Cyfarfod Diwethaf 28/07/20. / Minutes of last meeting 28/07/2020.

Derbyniwyd y cofnodion 28/07/20 yn gywir, Cynigwyd gan **EWJ**, Eiliwyd gan **ST**.
The minutes 28/07/20 were confirmed correct, Proposed by EWJ, Seconded by ST.

4. Balans ar 01/08/2020. / Balance on 01/08/2020.

Cyfrif Cyfredol "Community" (ar 01/08/2020)	-	£10,023.20
Cynilo "BMM" (ar 22/07/2020)	-	£ 4,944.75
	=	£14,967.95

Y Ganolfan - Balans yn y banc ar 20/08/2020. / Y Ganolfan Bank balance on 20/08/2020.

Cyfrif "Community" (ar 20/08/2020)	-	£ 2,775.13
Cynilo "BMM" (ar 20/08/2020)	-	£ 3,318.76

= £ 6,093.89

5. Cyllid / Finance

5.1 Biliau sydd wedi ei dalu / Bills that have been paid

£4.40 - I **LH** am postio taliadau hefyd y cyfrifon blynyddol i BDO. / *To **LH** for posting payments as well as the yearly accounts to BDO.*

5.2 Biliau iw dalu / Bills for payment

£94.80 - ROSPA Archwiliad blynyddol 2020. / *ROSPA's Annual inspection 2020*

Cynigwyd gan **AJ**, Eiliwyd gan **SAJ**. / *Proposed by **AJ**, Seconded by **SAJ**.*

5.3 Taliadau wedi Derbynn / Payments Received

Dim / *None*

6. Materion yn codi o'r cofnodion / Matters arising from the minutes

6.0.1 Cae chwarae / cae peldroed / Asesiad Risg. / Playing field / football field / Risk Assessment.

Penderfynwyd trafod adroddiad ROSPA 2020 a chreu asesiad risg newydd yng nghyfarfod mis Medi. Y cler i ebostio'r wybodaeth at yr aelodau unwaith eto. Ynglyn a goliau newydd, bydd **CW** yn derbyn mwy o wybodaeth yr wythnos nesaf gan y cwmni. Y cler i anfon ebost at y pennaeth i gadarnhau os yw nhw am dderbyn y goliau sydd yno ynghyd a rhwydi newydd? / *It was decided to discuss the ROSPA 2020 report and create a new risk assessment at the September meeting. The clerk to email the information to the members once again. Regarding the new goals, **CW** will receive more information next week from the company. The clerk to email the headteacher to confirm if they want to receive the existing goals and the new nets?*

6.0.2 Y Ganolfan

Rydym wedi derbyn dyfynbris gan drydanwr i ailosod y goleuadau. Cler i ebostio aelodau eto i'w hatgoffa bod angen cwblhau'r gwaith yma cyn ailagor Y Ganolfan i'r cyhoedd. Y cler i gysylltu gyda'r trydanwr i drefnu'r dyddiadau i'r gwaith gael ei wneud. / *We have received a quote from an electrician to replace the lights. Clerk to email members again to remind them that this work needs to be completed before re-opening of Y Ganolfan to the public. The clerk to contact the electrician to arrange the dates for the work to be done.*

6.0.3 Bin ysbwriel cyhoeddus / Public rubbish bin

Darllenwyd yr ebost a gawsom gan CSYM. Mae angen penderfynu ar leoliad y bin newydd. Mae yna lawer iawn o sbwriel rhwng y stryd fawr a cae chwarae. Oes posibil cael bin newydd yn y lleoliad yma? / *The email we received from IACC was read out. The location of the new bin needs to be decided. There is a great deal of litter between the high street and the playing field. Is it possible to get a new bin at this location?*

7. Cynllunio / Planning

7.1 Ceisiadau / Applications

HR/2020/2, Y Berth, Brynsiencyn - Tynnu gwrych ar dir ger / *Removal of hedgerow on land near* **Dim sylw / No comment**

HR/2020/3, Bodowyr Isaf, Llangaffo - Tynnu gwrych ar dir ger / *Removal of hedgerow on land near* **Dim sylw / No comment**

HR/2020/4, Tynnu gwrych ar dir yn Llanfairpwll/Llangaffo / *Removal of hedgerow on land in Llanfairpwll/Llangaffo* **Dim sylw / No comment**

DAG/2020/8, Tre Ifan, Brynsiencyn - Cais i bennu os oes angen caniatâd blaenorol ar gyfer codi sied amaethyddol ar dir yn / *Application to determine whether prior approval is required for the erection of an agricultural shed on land at* **Dim sylw / No comment**

VAR/2020/32, On land adjacent to Groeslon Farm Brynsiencyn - Cais o dan Adran 73A i ddiwygio amod (02)(dyluniad draenio dŵr wyneb), (04)(manyion draenio), (10) (Disgrifiadau masnachol o ddeunyddiau) a (11)(Cynlluniau a gymeradwywyd) o caniatâd cynllunio rhif 37C183A (codi annedd fforddiadwy ynghyd a chreu mynedfa i gerbydau) er mwyn galluogi newidiadau i ddyluniadau draenio a darparu gwybodaeth y gwnaethpwyd cais amdano ar ôl i waith ddechrau ar dir ger / *Application under Section 73A for the variation of condition (02)(Surface water drainage design), (04)(Drainage details), (10) (Trade descriptions of materials) and (11)(Approved plans) of planning permission reference 37C183A (erection of an affordable dwelling together with creation of a vehicular access) so as to allow amendments to drainage design and provide requested information after works have commenced on site* **Dim sylw / No comment**

7.2 Penderfyniadau / Decisions

HHP/2020/82, Erw Goch, Brynsiencyn - Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu, codi anecs ynghyd a estyniad i'r cwrtil yn / *Full application for alterations and extensions, erection of an annexe together with an extension to the curtilage at*

Derbynwyd ymateb gan CSYM yn rhoi **CANIATÂD** gyda amodau canlynol. / *An answer was received by IoACC saying **GRANTED** but with the following conditions.*

(01) Rhaid cychwyn ar y datblygiad yr ymwna'r caniatâd hwn a fo o fewn pum mlynedd i ddyddiad y caniatâd hwn. Rheswm: I gydymffurfio gyda gofynion Adran 91(1) o'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y diwygiwyd).

(02) Ni fydd yr anecs y rhoddir caniatâd iddi yma yn cael ei ddefnyddio ar unrhyw adeg ac eithrio i bwrpas sy'n ategol i'r defnydd preswyl o'r annedd a elwir Erw Goch. Rheswm: Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth.

(03) Ni fydd unrhyw ddatblygiad yn digwydd hyd nes y bydd cynllun tirlunio ar gyfer y safle wedi cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'i gymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo. Bydd y cynllun a gymeradwywyd yn cael ei weithredu heb fod yn hwyrach na'r tymor plannu cyntaf ar ôl meddiannu'r adeilad neu gwblhau'r datblygiad, pa un bynnag yw'r

cynharaf Rheswm: er lles amwynderau'r ardal ac er mwyn sicrhau bod y datblygiad yn sicrhau gwelliant ecolegol.

(04) Os bydd unrhyw goed neu lwyni sy'n ffurfio rhan o'r cynllun tirlunio a gymeradwywyd yn methu â sefydlu, yn cael eu difrodi'n ddifrifol neu'n cael haint difrifol, yn marw neu'n cael eu tynnu am unrhyw reswm arall, o fewn cyfnod o bum mlynedd ar ôl eu plannu, bydd coed neu lwyni o rywogaeth, maint ac aeddfedrwydd a gymeradwyir gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn cael eu plannu yn lle'r rhai gwreiddiol yn ystod y tymor plannu nesaf. Rheswm: er lles amwynderau'r ardal ac er mwyn sicrhau bod y datblygiad yn sicrhau gwelliant ecolegol.

(05) Caiff y datblygiad a ganiateir drwy hyn ei gyflawni'n gwbl unol â'r manylion a ddangosir ar y cynlluniau isod, a geir ar ffurf cais ac mewn unrhyw ddogfennau eraill sy'n mynd gyda'r cais hwnnw oni chynhwysir hwy o fewn unrhyw ddarpariaeth yn amodau'r caniatâd cynllunio hwn. Dyluniad Rhif ERW/2020/01A – Gosodiad a Drychiadau Arfaethedig Dyluniad Rhif ERW/2020/03A – Cynllun Lleoliad Dyluniad Rhif ERW/2020/05A – Cynllun Draenio Arfaethedig Rheswm: Sicrhau bod y datblygiad yn cael ei weithredu'n unol â'r manylion a gymeradwywyd. Y cynllun datblygu sy'n berthnasol i Ynys Môn yw'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn (2017). Roedd y polisiau canlynol yn berthnasol i'r sylw a roddwyd i'r cais hwn: Polisi PCYFF 1: Ffiniau Datblygu; Polisi PCYFF 2: Meini Prawf Datblygu; Polisi PCYFF 3: Dylunio a Siapio Lle; Polisi PCYFF4: Dylunio a Thirweddu Gwybodaeth O 7 Ionawr 2019, bydd angen systemau draenio cynaliadwy ar gyfer pob datblygiad newydd o fwy nac 1 tŷ neu lle mae'r arwynebedd adeiladu yn 100m² neu fwy er mwyn rheoli dŵr wyneb ar y safle. Mae'n rhaid i systemau draenio dŵr wyneb gael eu dylunio a'u hadeiladu yn unol â safonau gofynnol ar gyfer draenio cynaliadwy a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru. Mae'n rhaid i'r systemau hyn gael eu cymeradwyo gan Gyngor Sir Ynys Môn yn ei rôl fel Corff Cymeradwyo SDCau (CCS) cyn i'r gwaith adeiladu gychwyn. Bydd dyletswydd ar y CCS i fabwysiadu systemau sy'n cydymffurfio, cyhyd a'u bod wedi eu hadeiladu ac yn gweithredu yn unol â'r cynigion a gymeradwywyd, gan gynnwys unrhyw amodau cymeradwyaeth y CCS. Does dim cynllun draenio wedi ei gyflwyno sy'n dangos y cynllun a fwriedir. O ganlyniad i faint a natur y datblygiad efallai y bydd angen cyflwyno cais am CCS cyn dechrau ar y gwaith adeiladu.

8. Gohebiaethau drwy ebyst / Correspondence via emails

Rhestrwyd gohebiaethau yn llawn yn agenda'r cyfarfod. / *Correspondence received was listed in full in the meeting's agenda.*

9. Adroddiadau gan y cynghorwyr sir. / Reports from the county councillors.

9.1 Adroddiad Cynghorydd EWJ / Councillor EWJ Report

Mae Ysgol Brynsiencyn bellach wedi ailagor ar gyfer staff a disgyblion. Maent wedi penodi cynorthwydd ADY newydd a fydd yn dechrau yn ei chyflogaeth newydd ddechrau mis Hydref 2020. / *Brynsiencyn School has now reopened for staff and pupils. They have appointed a new ALN assistant who will start in her new employment in early October 2020.*

Gwelwn fod caffi Heritage wedi creu ardal tu allan ychwanegol. A ydi hi'n bosibl cael mwy o fanylion am hyn? / *We see that Heritage cafe has created an extra outside area. Is it possible to get more details on this?*

9.2 Adroddiad Cynghorydd **DR** / *Councillor DR Report*

Er bod **DR** yn absennol heno fe ebostwyd ei sylwadau a darllenwyd yn ystod y cyfarfod. "Nid oedd Llanfihangellesceifiog yn or hoff o enw "Braint" gan nad yw yn cyffwrdd yn eu plwyf. Mae'r Afon Braint yn cychwyn ger Pentraeth, ac yn cyrraedd y môr yn Llanfair a Dwyran, felly nid yw yn unigryw i'r plwyf newydd. Cynigiwyd defnyddio enw yr afon sy'n creu'r ffin rhwng Gaerwen a Llanddaniel, a rhan o'r ffin rhwng Llanddaniel a Llanidan, sef yr afon Bodowyr. Cynigiwyd enw Bodowyr fel enw y ward newydd, sydd yn addas oherwydd ei bod yn tarddu yn Llanfihangellesceifiog, yn ffinio Llanddaniel, ac yn terfynu wrth ymuno a'r afon Braint yn Llanidan, h.y. mae cyswllt efo'r tri plwyf". Bydd y Cyngor Sir yn cyfarfod yn fuan i gadarnhau'r enw newydd. / *Although **DR** was absent tonight his comments were emailed and read during the meeting. "Llanfihangellesceifiog did not like the name" Braint "because it does not touch their parish. The River Braint starts near Pentraeth, and reaches the sea at Llanfair and Dwyran, so it's not unique to the new parish. It was proposed to use the name of the river that forms the boundary between Gaerwen and Llanddaniel, and part of the boundary between Llanddaniel and Llanidan, the Bodowyr. Bodowyr was proposed as the name of the new ward, which is appropriate because it originates in Llanfihangellesceifiog, borders Llanddaniel, and terminates on joining the river Braint in Llanidan, ie. there is a link with the three parishes ". The County Council will be meeting soon to confirm the new name*

10. Unrhyw Fater Arall (gyda chaniatad y Cadeirydd) / Any Other Business (with permission from the Chairperson)

10.1 **AJ** - Mae angen atgyweirio golau stryd ar Lôn Uchaf. / *There is a street light in need of repair on Lôn Uchaf.*

10.2 Nid oedd gan aelodau eraill dim i'w adrodd. / *Other members had nothing to report.*

11. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf / Date of Next Meeting

11.1 Nos Fawrth, 29/09/2020 am 7.00 y.h. ar-lein.
Tuesday Evening, 29/09/2020 at 7pm online.

11.2 Diolchodd yr Cadeirydd i'r aelodau am fynychu'r cyfarfod. Clwyd y cyfarfod am 8.00y.h..
/ The Chairperson thanked members for attending the meeting. Meeting closed at 8.00pm.